**Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol**
**Tachwedd 2023/Consultation on the School Year**
**November 2023**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried strwythur y flwyddyn ysgol, gyda'r nod o helpu i fynd i'r afael ag anfantais a chefnogi llesiant, er budd dysgwyr, staff a rhieni. Mae hyn yn rhan o genhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol er budd pob dysgwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar gynigion i ddiwygio dyddiadau tymhorau'r ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru fel bod y tri thymor yn fwy cyfartal o ran hyd, gyda gwyliau mwy cyson. Ysgolion a gynhelir yw'r ysgolion hynny sy'n cael eu hariannu'n bennaf gan awdurdod lleol gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd, canol ac uwchradd a gynhelir, ac unedau cyfeirio disgyblion.

Yn 2023, rydym fwy neu lai yn dilyn yr un strwythur o ran tymhorau'r ysgol â'r hyn roeddem yn ei ddilyn yn 1873, er ein bod yn byw, yn dysgu ac yn gweithio mewn byd gwahanol iawn o gymharu â sut oedd pethau 150 o flynyddoedd yn ôl. Rydym am i'r calendr ysgol gyd-fynd yn well â bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain a'n helpu i fynd i'r afael ag anfantais, lleihau anghydraddoldeb addysgol, a chefnogi llesiant dysgwyr a staff.

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi ymrwymo o'r blaen i ymgynghoriad ffurfiol ynghylch strwythur y flwyddyn ysgol. Fe wnaeth y Gweinidog hefyd gadarnhau na fyddai nifer cyffredinol yr wythnosau gwyliau yn gostwng ac na fyddai gwyliau'r haf yn llai na phedair wythnos**.** Dechreuodd yr ymgynghoriad hwnnw ynghylch strwythur y flwyddyn ysgol ar 21 Tachwedd 2023 a bydd ar agor am 12 wythnos.

Mae hyn yn dilyn nifer o weithgareddau ymchwil ac ymgysylltu a gynhaliwyd gennym mewn perthynas â chanfyddiadau a phrofiadau o galendr presennol yr ysgol a rhai amgen:

- Roedd '*Agweddau tuag at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru - Canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu*', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd ynghylch eu canfyddiadau o'r calendr ysgol presennol a strwythurau amgen ar gyfer y calendr.
- Roedd '*Archwilio canfyddiadau a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol yng Nghymru*', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, yn edrych ar brofiadau a chanfyddiadau dysgwyr, rhieni ac ymarferwyr addysg o galendr presennol yr ysgol a'r effaith ar gynnydd, cyrhaeddiad, ymddygiad dysgwyr, blinder, llesiant a phontio i'r ysgol uwchradd.
- Cafodd '*Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: ymchwil ansoddol ac adolygiad diwygiedig o dystiolaeth*' hefyd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023 ac mae'n cynnwys casgliadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol o Loegr a'r Alban lle mae newidiadau i'r calendr ysgol wedi'u gwneud.

Yn gyffredinol, mae'r casgliadau'n awgrymu bod cydberthynas rhwng strwythur calendr yr ysgol a llesiant dysgwyr ac ymarferwyr addysg. Hefyd, o ran cynnydd a

chyrhaeddiad, mae strwythur y calendr presennol yn effeithio mwy ar y rhai o gefndiroedd sydd dan anfantais economaidd a chymdeithasol, ac yn effeithio fwyaf ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Y newidiadau penodol a ystyrir yn yr ymgynghoriad ar gyfer gweithredu ym mlwyddyn ysgol 2025/26 yw:

1. **Ymestyn gwyliau hanner tymor mis Hydref yn 2025 i bythefnos a chwtogi gwyliau'r haf yn 2026 wythnos.**

Byddai hyn yn cefnogi lles dysgwyr a staff yn ystod y tymor hiraf drwy ddarparu wythnos ychwanegol o wyliau a lleihau'r amser a dreulir yn yr ysgol yn yr hydref. Byddai'r wythnos ychwanegol hon yn cael ei hailddosbarthu o wyliau'r haf ac felly byddai'n cwtogi gwyliau'r haf yn 2026 wythnos, a allai leihau effaith mynd gam yn ôl o ran y dysgu dros wyliau'r haf.

2. **Yr hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau'r gwanwyn â phenwythnos gŵyl gyhoeddus gysylltiedig y Pasg.**

Ar hyn o bryd, mae toriad y gwanwyn ym mis Mawrth neu fis Ebrill yn cyd-fynd â'r Pasg, sy'n symud bob blwyddyn. Mae'r dull hwn yn achosi i hyd hanner tymhorau newid, gan achosi anawsterau i ddysgwyr a staff. Er mwyn safoni hyd y ddau hanner tymor yn y gwanwyn rydym yn cynnig cael gwyliau'r gwanwyn tua hanner ffordd drwy'r tymor, sy'n golygu efallai na fydd y Pasg yn dod o fewn y gwyliau. Byddai gwyliau cyhoeddus yn dal i fod yn gymwys, a byddai penwythnos gŵyl gyhoeddus y Pasg yn glanio y tu allan i'r gwyliau tua dwywaith bob deng mlynedd.

Rydym hefyd yn ceisio barn am newidiadau posibl pellach y gellid eu cyflwyno maes o law. Yn eu plith:

3. **Rhoi'r hyblygrwydd i ymestyn gwyliau hanner tymor mis Mai a/neu, pe bai angen, symud y gwyliau i ffwrdd oddi wrth ŵyl gyhoeddus y Sulgwyn, gan gwtogi gwyliau'r haf wythnos o ganlyniad i hynny (gan olygu y byddai gwyliau'r haf yn bedair wythnos o hyd).**

4. **Symud diwrnod canlyniadau'r arholiadau TGAU i'r un wythnos â diwrnod canlyniadau'r arholiadau Safon UG/Safon Uwch.**

Ceir manylion llawn y cynigion uchod yn y ddogfen ymgynghori.

Er mai polisi addysgol yw strwythur y flwyddyn ysgol, rydym yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol effeithio ar sectorau ehangach. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r holl dystiolaeth, a gwrando ar yr holl safbwyntiau drwy ymatebion i'r ymgynghoriad a grwpiau ffocws a chyfweliadau a gynhelir gydol yr ymgynghoriad. Gyda hyn mewn golwg, hoffem eich annog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gellir dod o hyd i ddiweddariadau ychwanegol ynghylch diwygio'r flwyddyn ysgol a dolenni i'r cyhoeddiadau a grybwyllir uchod ar y dudalen we: Diwygio'r flwyddyn ysgol | LLYW.CYMRU

**Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol**
**Tachwedd 2023/Consultation on the School Year**
**November 2023**

The Programme for Government and Co-operation Agreement sets out the Welsh Government's commitment to consider the structure of the school year, with the aim of helping to tackle disadvantage and support well-being, and to benefit learners, staff and parents. This is part of the Welsh Government's national mission to achieve high standards and aspirations for all by tackling the impact of poverty on educational attainment to support every learner.

The Welsh Government are seeking views on proposals to amend school term dates for maintained schools in Wales so that the three terms are more equal in length, with more evenly distributed breaks. Maintained schools are those which are mainly funded by a Local Authority including maintained nursery schools, primary, middle and secondary schools and Pupil Referral Units (PRU).

In 2023, we follow broadly the same school term structure as was followed in 1873, despite living, learning and working in a very different world compared to how things were 150 years ago. We want the school calendar to be better aligned with life in the 21st century and to help us to address disadvantage, reduce educational inequalities and support learner and staff well-being.

The Minister for Education and Welsh Language has previously committed to a formal consultation regarding the structure of the school year. The Minister also confirmed that the overall number of break weeks would not be reduced and the summer break will be no fewer than four weeks. This consultation regarding the structure of the school year commenced on 21 November 2023 and will be open for 12 weeks.

This consulttaion follows a number of research and engagement activities we have undertaken regarding perceptions and experiences of the current and alternative school calendars:

- 'Attitudes towards school year reform in Wales - *Research and engagement findings',* published in June 2022, engaged with a broad range of audiences regarding their perceptions of the current school calendar and alternative school calendar structures.
- '*Research exploring perceptions and experiences of the current school calendar in Wales'*, published in October 2023, looked at learner, parent and school practitioner experiences and perceptions of the current school calendar and the impact on progression, attainment, learner behaviour, fatigue, well-being and secondary school transition.
- Also published in October 2023, '*Effects of changes to the school year and alternative school calendars: qualitative research and an updated review of the evidence*', includes findings from interviews with stakeholders in Local Authorities from England and Scotland where changes to the school calendar have been made.

Overall, findings suggest that there is a correlation between the structure of the school calendar and the well-being of learners and school practitioners. Additionally, in terms of progression and attainment, those from socially and economically disadvantaged backgrounds are more affected by the current calendar structure and

learners with Additional Learning Needs (ALN) are the most affected by the current school calendar.

The specific changes being considered in the consultation for implementation in the 2025/26 school year are:

1. **Extending the October half-term break in 2025 to two weeks and shortening the summer holidays in 2026 by one week**

This would support learner and staff well-being during the longest term by providing an additional week's break and reducing the time spent in school in the autumn. This additional week would be redistributed from the summer break and would therefore shorten the summer break in 2026 by one week, which could reduce the impact of learning loss over the summer break.

2. **The flexibility to de-couple the spring break from Easter and the associated public holiday weekend**

Currently, the spring break in March or April coincides with Easter, which moves each year. This approach causes the length of half-terms to change, causing difficulties for learners and staff. To standardise the length of half-terms in the spring, we are proposing having a spring break roughly halfway through the term which means that Easter may not fall within the break. Public holidays would still apply and the Easter public holiday weekend would fall outside of the break roughly twice in every ten years.

We are also seeking views on further potential changes which could be introduced later. These include:

3. **Providing the flexibility to extend the May half-term break and/or if necessary, moving the break away from the Whitsun public holiday with an associated shortening of the summer break by one week (meaning the summer holidays would be four weeks in length).**

4. **Moving GCSE results day to the same week as AS/A-level results day.**

The full details of the above proposals can be found in the consultation document.

Whilst the structure of the school year is an educational policy, we recognise that any changes to the school year structure could impact wider sectors. Therefore, the Welsh Government is committed to reviewing all evidence, and listening to all views through consultation responses and focus groups and interviews conducted throughout the consultation.

With this in mind, we would very much like to encourage you to participate in the consultation. Additional updates regarding school year reform and links to the publications mentioned above can be found on the webpage: Reform of the school year | GOV.WALES